OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1350 (Cy.98)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cyflasynnau Mwg (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - - 17 Mai 2005

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (c), (e) ac (f), (17)(2), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi, ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac wedi ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. O ran y Rheoliadau hyn —

(a) eu henw yw Rheoliadau Cyflasynnau Mwg (Cymru) 2005;

(b) deuant i rym —

(i) yn achos rheoliad 3 a rheoliadau 1 a 2 i'r graddau y maent yn berthnasol i reoliad 3, ar 27 Mai 2005;

(ii) neu fel arall, ar 16 Mehefin 2005;

(c) maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2. 2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4). Yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (Diwygio) 2004 (O.S. Rhif 2004/2990), gydag effaith o 7 Rhagfyr 2004 ymlaen datgymhwysir y gofyniad i ymgynghori a geir yn adran 48(4) o Ddeddf 1990 mewn unrhyw achos lle y mae ymgynghori yn ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002.

ystyr "darpariaeth Gymunedol benodedig" ("*specified Community provision*") yw un o ddarpariaethau Rheoliad 2065/2003 a bennir yng ngholofn 1 ac a ddisgrifir yng ngholofn 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990";

ystyr "Rheoliad 2065/2003" ("*Regulation 2065/2003*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2065/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflasynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio mewn bwydydd neu arnynt(**4**).

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 2065/2003 yr un ystyron yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn Rheoliad 2065/2003 ac yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at erthygl neu atodiad â Rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r atodiad â'r Rhif hwnnw yn Rheoliad 2065/2003.

Gweinyddu Rheoliad 2065/2003

3. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd(**5**) yw'r awdurdod cenedlaethol cymwys at ddibenion Erthygl 7 o Reoliad 2065/2003 (cais am awdurdodiad).

Condemnio bwyd

4.—(1) Os aed yn groes i unrhyw un o Erthyglau 4.2, 5.1, 5.2, 9.4, neu 9.5 mewn perthynas ag unrhyw fwyd—

(a) rhaid trin y bwyd hwnnw at ddibenion adran 9 o'r Ddeddf fel pe bai'n methu cydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd; a

(b) os rhan o swp, lot neu o lwyth o fwyd o'r un dosbarth neu ddisgrifiad yw'r bwyd hwnnw, hyd nes y profir i'r gwrthwyneb, rhaid tybio bod y cyfan o'r bwyd sydd yn y swp hwnnw, yn y lot hwnnw neu yn y llwyth hwnnw'n methu cydymffurfio â'r gofynion hynny.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn mae "bwyd" yn cynnwys unrhyw gyddwysiad sylfaenol o fwg, ffracsiwn sylfaenol o dar neu gyflasyn mwg deilliedig.

Tramgwyddau a chosbau

5. Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau Cymunedol penodedig sydd yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu sy'n methu cydymffurfio â hwy yn euog o dramgwydd ac yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990

6. Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn a Rheoliad 2065/2003 fel y maent yn gymwys at ddibenion y Ddeddf —

(a) adran 3 (rhagdybiaeth y bwriedir bwyd i'w fwyta gan bobl);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 14 neu 15 o'r Ddeddf honno);

(ch) adran 22 (amddiffyniad cyhoeddi yng nghwrs busnes);

(d) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(dd) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(**4**) OJ Rhif L309, 26.11.2003, t.1.
(**5**) Cyfeiriad yr Asiantaeth yng Nghymru yw Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.